


**Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin**
**Coed y Brenin Visitor Centre**
**Dolgefeiliau, Dolgellau,**
**LL40 2HZ**
**01341 440747**

**0300 065 3000**
**cyfoethnaturiol.cymru/coedybreninvisitorcentre**
**naturalresources.wales/coedybreninvisitorcentre**

Os hoffech chi'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, rhowch wybod inni, os gwelwch yn dda:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000

If you would like this publication in a different format, please let us know:
enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
0300 065 3000

NATU112 04/21

FSC www.fsc.org FSC® C115912
Arwydd o goedwigaeth gyfrifol
The mark of responsible forestry

Mae coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®

Natural Resources Wales forests have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%
Printed on 100% recycled paper

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## Croeso i Lwybr Geogelciau Coed y Brenin

Rywle allan yn y goedwig, rydyn ni wedi cuddio 11 blwch o drysor. Eich her yw dod o hyd iddyn nhw trwy ddefnyddio'r map, GPS a'ch pen a'ch pastwn eich hun!

Gallwch naill ai logi GPS o'r ganolfan ymwelwyr neu lawrlwytho cyfesurynnau'r celc i'ch dyfais neu'ch ffôn eich hun o wefan www.geocaching.com.

Gallwch chwilio am y celciau mewn unrhyw drefn ond rydyn ni'n argymell eich bod chi'n eu dilyn yn ôl eu rhifau.

Ar ôl dod o hyd i'r celc ar gyfer Llwybr Marathon Cymru (y celc olaf ar y ddau lwybr), dilynwch y map yn ôl i'r ganolfan ymwelwyr.

## Welcome to the Coed y Brenin Geocache Trail

Somewhere out in the forest we have hidden 11 boxes of treasure from view. Your challenge is to find them by using the map, a GPS and your own initiative!

You can either hire a GPS from the visitor centre or download the cache co-ordinates to your own device or phone from the www.geocaching.com website.

You can search for the caches in any order but we recommend you follow them as they're numbered.

After finding the cache for Trail Marathon Wales (the last cache on both trails) follow the map back to the visitor centre.

## Ynglŷn â'r Celciau

Blychau plastig gwrth-ddŵr yw'r celciau yn bennaf, sy'n cynnwys llyfr log i chi ei lofnodi ac ysgrifennu sylwadau ynddo, a rhai eitemau o "drysor". Nid gwobrau yw'r rhain, os byddwch yn cymryd eitem mae'n rhaid i chi roi rhywbeth arall ynddo sydd o'r un gwerth neu'n fwy gwerthfawr i'r person nesaf ddod o hyd iddo.

**Ar ôl i chi orffen, cofiwch roi popeth yn ôl yn y blwch a rhoi'r celc yn ôl yn union fel y cawsoch hyd iddo.**

## About the Caches

The caches are mostly waterproof plastic boxes containing a logbook for you to sign and write comments in, and some items of "treasure". These are not prizes, if you take out an item you must replace it with something of equal or greater value for the next person to find.

**Once you are finished please be very careful to put everything back in the box and put the cache back exactly as you found it.**

**Cofiwch:**

- Fod angen inni weithiau gau neu ddargyfeirio llwybrau tra byddwn yn gwneud gwaith cynnal a chadw neu weithgareddau coedwig. Mae hyn er mwyn eich diogelwch chi, felly dilynwch unrhyw gyfarwyddiadau.
- Gallwch ddod ar draws cerddwyr, cŵn, beiciau mynydd, ceffylau neu gerbydau ar unrhyw adeg.

**Please be aware that:**

- We sometimes need to close or divert trails while we carry out maintenance work or forest operations. This is for your safety so please follow any instructions.
- You may come across walkers, dogs, mountain bikes, horses, or vehicles at any time.

## Cyngor ac awgrymiadau

### Ambell i awgrym i'ch rhoi ar ben ffordd...

- Er mwyn i rai dyfeisiau GPS weithio, mae angen i chi fod yn symud, maen nhw'n drysu os ydych chi'n sefyll yn stond.
- Peidiwch â rhoi'r ddyfais GPS yn eich poced gan fod angen iddi weld yr awyr yn glir.
- Maen nhw hefyd yn gweithio'n well yn yr awyr agored ac nid o dan orchudd coed trwchus.
- Cofiwch nad llinell syth yw'r ffordd hawsaf na chyflymaf rhwng dau bwynt bob amser. Gallwch gyrraedd y celciau hyn i gyd trwy ddilyn y prif lwybrau cerdded neu ffyrdd y goedwig. Peidiwch â rhuthro'n bendramwnwgl trwy'r goedwig a pheidiwch â mentro gyda thir serth neu'r llwybrau beicio mynydd.
- Ni allwch gyrraedd y celciau gyda cherbyd ac nid yw'n addas ymweld â nhw ar feic yn y drefn sydd ar y daflen.

## Hints and tips

### Some helpful tips to get you on your way...

- For some GPS's to work you need to be moving, they get confused if you stand still.
- Don't put the GPS in your pocket as they need a clear view of the sky.
- They also work better out in the open not under heavy tree cover.
- Remember a straight line is not always the easiest or fastest way between two points. You can visit all of these caches by following the main walking trails or forest roads. Don't go charging through the forest and don't take risks with steep terrain or the mountain bike trails.
- There is no access to the caches by vehicle and they are not suitable to visit by bike in the order given in the leaflet.




Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llwybr Geogelcio
Geocache Trail

Parc Coedwig
# Coed y Brenin
Forest Park

// Fedrwch chi ddod o hyd i'r trysor?
Can you find the treasure?




cyfoethnaturiol.cymru
naturalresources.wales

Cymru Wales

## YR YMDAITH RUFEINIG ROMAN MARCH

Cymedrol | Moderate
Pellter | Distance: 3½m | 5.7km
Amser | Time: 2¾ awr | hours
Dringo | Climb: 113m | 370 tr/ft
Cylchdaith | Circular: RM1-7

**UCHAFBWYNTIAU: Gweithfeydd Haearn Canoloesol a golygfeydd eang o'r Rhinogydd.**

Mae'r llwybr yn mynd i fyny'r bryn uwchben y ganolfan ymwelwyr yn raddol, ar lwybr llydan ag arwyneb da cyn dilyn sawl ffordd yn y goedwig, a gerddwyd unwaith gan y Rhufeiniaid, i waith haearn hynafol sy'n cuddio yn y goedwig.

Mae un rhan o ffordd y goedwig sydd ag arwyneb garwach oherwydd erydiad. Mae sawl giât ar y llwybr sydd â man pasio 1m o led i'r ochr ac mae yna feinciau bob hyn a hyn, lle gallwch orffwys a gwerthfawrogi'r golygfeydd.

**Yn agos at gelc ac yn cael trafferth dod o hyd iddo? Rhowch gynnig ar yr awgrymiadau hyn...**

**Awgrym Padelli Britten:** Darllenwch y wybodaeth ac yna edrychwch i'r dde.

**Awgrym Cefndeuddwr:** Ar waelod y wal.

**Awgrym Uwch Draffordd:** Edrychwch o dan y creigiau mawr.

**Awgrym Haearn yn Taro Haearn:** Ni fydd y ceirw yn gallu bwyta hwn.

**Awgrym Cylchfan y Goedwig:** Ar ymyl y gylchfan, heb fynd yn bell i mewn.

**Am weddill y cliwiau, ewch i geocaching.com**

**HIGHLIGHTS: Medieval Bloomeries and far reaching views of the Rhinogydd.**

The trail gradually climbs the hill above the visitor centre on a wide well-surfaced path before following several forest roads, once walked by Romans, to an ancient iron works hidden in the forest.

There is one section of forest road with a rougher eroded surface. There are several gates on the trail which have a 1m-wide passing place to the side and there are occasional benches where you can rest and take in the views.

**Close to a cache and struggling to find it? Try these hints...**

**Britten Pans hint:** Read the information and then look right.

**Cefndeuddwr hint:** At the bottom of the wall.


**Super Highway hint:** Look under the big rocks.


**Clash of Iron hint:** The deer won't be able to eat this.

**Forest Roundabout hint:** On the edge of the roundabout not far in.

**For the rest of the clues, see geocaching.com**

### PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




parcio | parking
gwybodaeth | information
toiledau | toilets
toiled hygyrch | accessible toilet
caffi | café
safle picnic | picnic site
maes chwarae | play area
mainc | bench
arwyneb serth, rhydd | steep, loose surface
golygfan | viewpoint

0 — 1 km
0 — ½ milltir / mile

## LLWYBR Y CHWARELWR MINER'S TREK

Anodd | Strenuous
Pellter | Distance: 4¾m | 7.6km
Amser | Time: 3¾ awr | hours
Dringo | Climb: 236m | 774 tr/ft
Cylchdaith | Circular: MT1-10

**UCHAFBWYNTIAU: Rhaeadrau gwyllt a mwyngloddiau aur hynafol.**

Mae'r llwybr yn dilyn Yr Ymdaith Rufeinig cyn mynd i lawr y bryn i'r dyffryn nesaf at y ddwy raeadr - Rhaeadr Mawddach a Phistyll Cain.

Mae'r llwybr yn gyfuniad o ffyrdd coedwig llydan a llwybrau cul serth, sy'n aml yn llai na 50cm o led mewn mannau, a'u harwyneb yn arw ac anwastad a byddwch yn barod am fwd, creigiau a gwreiddiau. Wrth ichi ddringo i lawr at y mwynglawdd aur mae'r llwybr wedi erydu a cheir cerrig mawr rhydd dan draed, ac mae rhannau o'r craigwely serth yn dod i'r golwg.

**Yn agos at gelc ac yn cael trafferth dod o hyd iddo? Rhowch gynnig ar yr awgrymiadau hyn...**

**Awgrym Padelli Britten:** Darllenwch y wybodaeth ac yna edrychwch i'r dde.

**Awgrym Cefndeuddwr:** Ar waelod y wal.

**Awgrym Uwch Draffordd:** Edrychwch o dan y creigiau mawr.

**Awgrym Haearn yn Taro Haearn:** Ni fydd y ceirw yn gallu bwyta hwn.

**Awgrym Cylchfan y Goedwig:** Ar ymyl y gylchfan, heb fynd yn bell i mewn.

**Am weddill y cliwiau, ewch i geocaching.com**

**HIGHLIGHTS: Roaring waterfalls and ancient goldmines.**

The route follows the Roman March before heading downhill into the next river valley to the twin waterfalls of the Mawddach and Gain.

The trail is on a combination of wide forest roads and steep narrow paths, often less than 50cm wide in places, on an unmade, uneven surface, where you can expect mud, rocks and tree roots. On your descent to the goldmine the eroded trail has large loose stones underfoot and areas of steep exposed bedrock.

**Close to a cache and struggling to find it? Try these hints...**

**Britten Pans hint:** Read the information and then look right.

**Cefndeuddwr hint:** At the bottom of the wall.

**Super Highway hint:** Look under the big rocks.

**Clash of Iron hint:** The deer won't be able to eat this.

**Forest Roundabout hint:** On the edge of the roundabout not far in.

**For the rest of the clues, see geocaching.com**

### PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE

